# CYMRU'R MENTRAU

## mentrau cymdeithasol a'r bobl sy'n eu gyrru

Menna Jones



# Cymru'r Mentrau

Menna Jones

## Cyflwyniad

Heddiw, yn fwy nag erioed, mae angen storïau ysbrydoledig i'n cynnal, i'n sbarduno a'n hysbrydoli. Storïau sy'n tarddu o'r cymunedau o 'nghwmpas sydd bwysicaf i mi – hanesion pobl yn dod ynghyd, yn ymdrechu i gydweithredu, ac yn creu newid. Maen nhw'n cynnig gobaith ac yn rhoi cipolwg ar Gymru'r dyfodol pan fydd lliaws o gymunedau ffyniannus yn adfywio'r wlad drwy gynghreirio i greu prosiectau llesiant a threftadaeth, cyfoeth lleol a chynaladwyedd. Does dim angen sgrolio neu chwilota ymhell i'w darganfod – mae toreth o'r storïau hyn yn llechu hwnt ac yma dan ein trwynau.

Cyfres o gyfweliadau gyda thri ar ddeg o arweinwyr mentrau o bob rhan o Gymru sydd yma – pobl ddihafal a fu'n dyheu am ddyfodol gwell i'w cymunedau ac sydd wedi mynd ati i wireddu'r weledigaeth. Adrodd eu storïau nhw – dyna oedd yn fy ngyrru yn anad dim wrth gynllunio'r llyfr hwn. Chwilfrydedd hefyd ynghylch yr arweinwyr cymunedol hyn a'u prosiectau, eu profiadau personol a'u llwyddiannau, y rhwystrau a'r effeithiau, yn ogystal ag awydd i gyfleu darlun gonest ohonynt fel unigolion.

Felly cawn gipolwg o lygad y ffynnon ar rym afon Ogwen ym Methesda, egni'r môr yng Nghaergybi, hud a lledrith Enlli, cyfoeth Treláí, adfywiad diwylliant Cymraeg Merthyr a Wrecsam, ymgyrchoedd gwiw ardal Penfro ac Aberteifi, y celfyddydau yng Nghaernarfon a brwydrau Aberdyfi. Heb anghofio am genhadaeth gymdeithasol GISDA yng Nghaernarfon a Pobl a Gwaith yn ne Cymru, effaith cymanfa o fentrau yn datblygu gwasanaethau ac asedau ym Mro Ffestiniog, ac ymdrechion diweddar Cymunedoli a sefydlwyd yng Ngwynedd i gydlynu'r mentrau a chreu cydweithio trawsnewidiol.

Deilliodd y cymhelliant personol ar gyfer y llyfr o'r ffaith fy mod innau wedi cael fy ysbrydoli ar hyd y blynyddoedd i weithio dros lesiant cymunedau a chymunedau o ddiddordeb. Cadarnhaodd fy magwraeth yng nghefn gwlad Ceredigion yn ystod yr 1960au a'r 1970au bwysigrwydd cychwyn wrth fy nhraed ac adnabod gwerth y gymuned o 'nghwmpas. Yna, ar hyd y blynyddoedd, ymdrechais i greu'r fersiwn orau o'r gymuned glòs honno a brofais ym more f'oes. Dyna a 'nghymhellodd am dros 35 mlynedd i ddatblygu a rheoli prosiectau cymunedol a chynaliadwy. Es ati i ail-greu'r ymdeimlad hwnnw o berthyn, cyfrannu a gweithredu er lles yn lleol, ac efelychu gwerthoedd a phrofiad plentyndod fy nghymuned enedigol yn Alltyblaca. Arweiniodd hynny fi at Antur Waunfawr, Caernarfon a 27 mlynedd o gydweithredu efo pobl o'r un anian. Dyma gyfnod o adfywio gwasanaethau yn y pentref a'r economi leol drwy greu swyddi a phrosiectau gwaith mewn pentref bychan, gyda chymuned o bobl ag anableddau dysgu, criw Cymraeg eu hiaith, rhai unigryw ond cyfarwydd, a rannai'r un hunaniaeth.

Er nad oeddwn i erioed wedi cyfarfod R. Gwynn Davies, sylfaenydd a chadeirydd Antur Waunfawr, cyn fy nghyfweliad ar gyfer swydd y Prif Weithredwr yn ôl yn 1995, roeddem yn gweld lygad yn llygad o'r cychwyn ac yn coleddu'r un athroniaeth. Ond er bod Gwynn fel tad-cu i mi a ninnau'n rhannu'r un gwerthoedd a dygnwch ac etheg gwaith, ar adegau mi fyddai'r ddau ohonom ni'n dadlau fel ci a chath. Gwreiddyn y ddadl barhaus oedd bod Gwynn yn mynnu y dylai llywodraeth wâr ariannu menter fel Antur Waunfawr gant y cant, gan ein bod yn gwasanaethu'r mwyaf bregus – pobl ag anableddau dysgu. Er fy mod i'n cytuno efo'r egwyddor, roeddwn innau'n taeru bod rheidrwydd arnom i ddarganfod ffynonellau incwm newydd i ariannu'r gwaith, gan nad oedd cyllid cyhoeddus a grantiau digonol fyth am fod ar gael i gyflawni'r holl hyfforddiant a'r gwaith, y cyfleusterau a'r cartrefi roedd eu hangen. Ac roedd yr Antur angen £3 miliwn o gyllid yn flynyddol! Roedd hi'n ddadl ddi-ben-draw.

Cyn i'r term 'menter gymdeithasol' gael ei fabwysiadu yma yng Nghymru amlygwyd yr her, a bu'n rhaid datblygu ffyrdd newydd o weithredu gwaith yr elusen wrth i'r gwaith a'r costau gynyddu. (Cyfeirir drwy'r llyfr hwn at 'fentrau cymdeithasol' a 'mentrau cymunedol': tra mae mentrau cymunedol wedi eu gwreiddio mewn cymunedau penodol mae mentrau cymdeithasol yn cwmpasu'r un math o werthoedd ond yn aml yn pwysleisio'r elfennau busnes a chymdeithasol.) Rhaid oedd creu busnesau cymdeithasol cynaliadwy gydag elw ariannol i'w dywallt yn ôl i gynnal y gwaith, y prosiectau, yr asedau a'r bobl. Yn fwy na dim, roedd rheidrwydd arnaf fi a'r tîm i greu digon o gyfoeth cymunedol i gynnal cyfleoedd gwaith a datblygu'r economi leol, dyfeisio prosiectau amgylcheddol tra'n gwarchod yr etifeddiaeth leol yr un pryd. Sylweddolais fod yr un ymdrechion yn cael eu dyblygu ar hyd a lled y wlad gyda mentrau yn cystadlu am grantiau, yn dyheu am sicrwydd ariannol a dyfodol hyfyw i'w cymunedau.

Mae 'na Gymry sy'n cychwyn busnesau, yn gyflogwyr neu'n hunan-gyflogedig, ac mae 'na eraill sy'n gweithio'n ffyddlon i sefydliadau ac awdurdodau. Ches i erioed fy nenu at y naill lwybr na'r llall, oherwydd ym mêr fy esgyrn, unwaith yr oeddwn i wedi sodro fy nhraed mewn gwaith cymunedol, fedrwn i fyth ddychmygu canolbwyntio'n llwyr ar fodel busnes na gweithio chwaith o fewn cyfundrefn ffurfiol awdurdod lleol.

Mae llwybr mentrau cymdeithasol yn cynnig cyfle i feithrin gweledigaeth wahanol, rhyddid i anturio a gweithredu'n lleol gydag angerdd dros bobl a chymuned, economi ac amgylchedd, iaith a diwylliant.

Er gwaethaf anferthedd y sialensau cymdeithasol ac economaidd sy'n ein hwynebu, mae byddinoedd bach ar hyd a lled y wlad yn gweithredu o'r galon ac yn ymlafnio dros eu cymunedau a'u pobl, yn benthyg a rhannu syniadau, yn ymweld â'i gilydd i ddysgu, ac yn teilwrio prosiectau i'r amodau lleol. Ac mae 'na enghreifftiau tebyg ar draws y byd. Ymwelais trwy'r gwaith a thra oeddwn ar wyliau â mentrau di-ri gan gynnwys cymunedau yn Iwerddon, Lithwania, Palma Majorca, Taipei a Mombasa a chyfarfod â phobl yn cyd-ddychmygu, cydweithredu a datblygu ffyrdd newydd o gydgynhyrchu. Profais drosodd a throsodd yr hyn all criw bach o bobl ddygn ei gyflawni pan mae dyfodol eu cymuned yn y fantol. Ac mae mentrau cymunedol yn mesur llwyddiant trwy werthuso'r ymdrech leol, nifer y cyfranwyr a'u syniadau gwych, cyfoeth yr ymroddiad a photensial y gymuned i gymryd cyfrifoldeb.

Rydym angen mudiadau ac arweinwyr mentrus sy'n beiddio gwneud prosiectau arloesol cymunedol bach a mawr er lles pobl Cymru. Mae'n anodd i ni arloesi fel unigolion, a hyd yn hyn, does gan y drefn lywodraethol mo'r adnoddau na'r awydd i gyfarch problemau cymdeithasol ac economaidd cynyddol ar lefel gymunedol. Ond gall lliaws o fentrau lleol sy'n gwehyddu ein cymdeithasau gynnig gobaith. Mae modd trawsnewid a rhoi anadl newydd i gymunedau. Yn anad dim, rydan ni angen tywyswyr creadigol ac egnïol i weithredu'n llawn cariad, a gweithredu gydag uchelgais. Gyda'n gilydd mae'n bosib taclo tlodi a difreintedd, diffyg gwasanaethau hanfodol ac economi anghyfartal.

Yn yr hinsawdd sydd ohoni does yna neb o'r tu allan am achub cymunedau Cymru, ac mae angen gwaredigaeth. Mae gan bob un ohonom gyfraniad i'w wneud. Mae'r awenau yn ein dwylo ni fel aelodau staff, arweinwyr neu ymddiriedolwyr, cwsmeriaid, gwirfoddolwyr neu wleidyddion – er mwyn cynnal a datblygu ein cymunedau a'u nodweddion hanfodol. Felly mae'r llyfr hwn hefyd yn alwad i weithredu. Oes 'na unrhyw beth pwysicach?

Meddai dihareb gan y sipsiwn Cymreig, 'Bydd y gaeaf yn gofyn beth a wneuthum yn yr haf.' Mae'r geiriau hynny'n ein gwahodd i ddehongli ein gwir gyfraniad, ac i mi, yn crisialu'r angen i weithredu, ymroi a dyfalbarhau tra gallwn. Rwy'n hynod falch fy mod i wedi treulio sawl tymor yn buddsoddi a chydymdrechu gyda'r goreuon i gymunedoli yng Nghymru. Mae'n waddol tra phwysig.

Menna Jones
Gwanwyn 2026

# CYMRU'R MENTRAU

## mentrau cymdeithasol a'r bobl sy'n eu gyrru

"Llyfr sy'n archwilio llwyddiant mentrau cymdeithasol Cymru a'u harweinwyr – a llyfr a allai wneud gwahaniaeth i ddyfodol ein cymunedau."

*Liz Saville Roberts*

"Cyfres o gyfweliadau gyda thri ar ddeg o arweinwyr mentrau o bob rhan o Gymru … Pobl ddihafal a fu'n dyheu am ddyfodol gwell i'w cymunedau ac sydd wedi mynd ati i wireddu'r weledigaeth. Adrodd eu storïau nhw – dyna oedd yn fy ngyrru yn anad dim … Chwilfrydedd hefyd ynghylch yr arweinwyr cymunedol hyn a'u prosiectau, eu profiadau personol a'u llwyddiannau, y rhwystrau a'r effeithiau, yn ogystal ag awydd i gyfleu darlun gonest ohonynt fel unigolion."

*Menna Jones*

O Flaenau Ffestiniog i Flaenau Gwent, o Ddyffryn Ogwen i Sir Benfro, o Ynys Môn i Ynys Enlli, o Wrecsam i Drelái, o Gaernarfon i Aberdyfi i Ferthyr Tudful … mae Cymru'n bwerdy o fentrau cymdeithasol sy'n cael eu gyrru gan griw eithriadol o bobl. Dyma lyfr sy'n cofnodi ac yn dathlu cyfraniad criw deinamig o entrepreneuriaid cymunedol. Llyfr hefyd i ysgogi ac ysbrydoli eraill i fentro ac arloesi.

Magwyd Menna Jones ym mhentref Alltyblaca yng nghefn gwlad Ceredigion. Rhwng 1995 a 2022, hi oedd Prif Weithredwr Antur Waunfawr, un o fentrau cymdeithasol mwyaf llwyddiannus Cymru. Mae hi wedi gwasanaethu ar fwrdd sawl mudiad yn y trydydd sector. Ei gobaith yw gweld mentrau cymdeithasol yn trawsnewid Cymru.

bwthyn
GWASG Y BWTHYN
£15
ISBN 978-1-917006-41-5
9 781917 006415